Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 17 March 2025 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Rob Marshall (Chair), Pam Erasmus (Vice Chair) Ian Scott, Martin O'Neill, Phil Keeton, Sara Keeton, Tim Zhou and Carrie Townsend Jones

**Officers Present**: Kerry Grabham – The Clerk, Diane Athernought – Customer Services Officer and Ian Hughes – CSO

**Public participation:** Adam Cousins of St John's Ambulance in attendance, primarily to provide a presentation in relation to agenda item **FI2503-08**

**FI2503-01** **Apologies:** None

**FI2503-02** **Declarations of Interest:** Cllr Pam Erasmus declared a personal interest in agenda item **FI2503-10** as she is a friend of the applicant.

**FI2503-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 17th February 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 17th February 2025 as a true record.

**FI2503-04** **Outstanding Actions from Previous Meeting**

Outstanding actions outlined by CSO.

**RESOLVED** outstanding actions updated, details recorded in 'outstanding action' report by CSO.

Mumbles Community Council

**FI2503-08** **St John's Ambulance Gower Division Grant Application Update**

Grant Application for £4,999.16 to contribute towards the purchase of vital equipment for volunteers and includes expenditure for training

The applicant had agreed to attend a committee meeting and provide a presentation on the application and address any queries from councillors.

The chair, Cllr Marshall brought forward this agenda item in order to allow the presentation to be made. At 6.32pm Standing Orders were suspended and Adam Cousins provided a presentation on the application detailing how he had been with The Gower Division of St John's Ambulance for nine years, outlining the work of his organisation within the area and how the grant money if awarded would be spent. The three main areas for funding being equipment and training, going out to the community and providing operational equipment. Mr Cousins stated that it was also necessary to prepare for major incidents and modernise their equipment and practices.

Following his presentation Mr Cousins answered questions from Councillors. He stated that his division was responsible for the whole of Gower and that MCC covered approximately 18 to 25% of that area. Every effort is made to raise funds and this has included approaches to other Community Councils including Dunvant, Bishopston and Reynoldston although to date no grant money had been provided.

Mr Cousins stated that many of the events where St John's Ambulance particiapte such as school fetes are provided free of charge although there are charges at larger events such as MumblesFest. Options to reduce fees for events and training arranged through MCC were also discussed.

A lot of the equipment has a good lifespan through regular maintenance and upgrades. Mr Cousins cited a mannequin that he uses as being nine years old and has been upgraded to include digital technology.

Mr Cousins stated that the equipment detailed in the original application had been amended to reflect the most significant needs of the organisation including two defibrillators and he would be happy to provide this amended version.

The Chair thanked Mr Cousins for his attendance and the work carried out by St John's Ambulance. Mr Cousins then left the meeting at 7.03pm when Standing Orders resumed.

Following Mr Cousin's departure, a discussion took place on the merits of the application. It was the general consensus of the committee that MCC should make some contribution to this worthwhile organisation and that the remainder of the funding should be found from other sources.

**RECOMMENDED** that a grant of £2,500 be made to St John's Ambulance Gower Division to contribute towards the purchase of vital equipment for volunteers and includes expenditure for training.
From **Budget FC1 Small and Medium Grants.**

**FI2403-05** **Budget Monitoring Reports to 31/01/2025 - Paul Beynon, RFO**
Reports attached

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon, who had previously circulated reports to councillors.

No queries regarding these reports were raised prior to the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2025.

**FI2503-12** **Grant Report**
Clerk's Update on Grants

The Chair, Cllr Marshall brought forward this agenda item in order to provide assistance and guidance to the grant applications detailed below.

The Clerk had previously provided written guidance which had been circulated to committee members prior to the meeting. Key aspects of the report included delays to applications, remainder of budget available and criteria for processing applications including restrictions on surplus bank funds were outlined.

The Clerk then addressed questions from Councillors.

**FI2503-06** **Sunshine Lotus Yoga Grant Application Update**
Grant Application for £5,000 to support yoga within the community through Yoga 4 Health

Cllr Townsend Jones outlined that the applicant's bank funds were limited and that a partial funding could be considered.

Mumbles Community Council

During the discussion that followed all councillors were supportive of the work being carried out by the applicant. The general consensus of the committee was that partial funding should be made with the remainer being sought from other bodies including Lottery Money. Should this grant be approved, it would create opportunities from the applicant to seek additional funding through 'matching' with The National Lottery for example.

**RECOMMENDED** that a grant of £2,500 be made Sunshine Lotus Yoga to support yoga within the community through Yoga 4 Health
From **Budget FC1 Small and Medium Grants**.

**FI2503-07** **Mumbles Bowls Club Grant Application Update**

Grant Application for £800 to contribute towards the maintenance of the playing surface at Mumbles Bowling Green.

The Clerk outlined that this application had historically been made through one applicant but at the request of Councillors at previous meetings all three clubs connected to the Bowling Green were now required to submit separate applications. It was also noted by the Clerk who had liaised with the club's treasurer that criteria regarding applications had changed and that in future consideration would be given to surplus funds being reserved.

During the discussion that followed it was also noted by Councillors that Mumbles Croquet Club had successfully had its application approved by Full Council at the March Meeting when representatives from all three clubs associated with The Bowling Green had attended and participated in proceedings.

**RECOMMENDED** that a grant of £800 be made to Mumbles Bowls Club to contribute towards the maintenance of the playing surface at Mumbles Bowling Green.
From **Budget FC1 Small and Medium Grants**.

**FI2503-09** **Mumbles Rugby Football Club Grant Application**

Grant Application for £2,000 to contribute towards supporting Mumbles Rugby Festival, Crackers Weekend.

**RESOLVED**: Deferred until April Finance & Compliance Committee Meeting pending grant application being circulated to committee members.

Mumbles Community Council

**FI2503-10** **Newton Athletic Football Club Grant Application**
Grant Application for £1,500 to contribute towards the. Newton Athletic Football Festival (Children)

**RESOLVED:** Deferred until April Finance & Compliance Committee Meeting pending grant application being circulated to committee members.

**FI2503-11** **Cardiac Risk in the Young (CRY) Grant Application**
Grant Application for £5,000 to contribute towards the screening of 100 young persons aged between 14 and 35 in relation to identifying heart-related issues.

Cllr Pam Erasmus reminded Councillors of the background to this application which had been discussed at earlier committee meetings.

During the discussion that ensued Councillors were supportive of the application although there was an opinion that the screening should have wider parameters so as to include more of the population.

Again, the general consensus of the committee was that partial funding should be made, providing opportunities for the applicant to seek additional funding, including 'matching' with The National Lottery.

Cllr Marshall offered to provide £200 from his councillor's allowance towards the screening programme and Cllr Erasmus had previously committed £1,500 from her own allowance to the screening programme. Councillors will be provided with the opportunity to donate from their own allowances towards the screening programme at The April Full Council Meeting.

**RECOMMENDED** that a grant of £2,500 be made to Cardiac Risk to contribute towards the screening of 100 young persons aged between 14 and 35 in relation to identifying heart-related issues
From **Budget FC1 Small and Medium Grants.**

Mumbles Community Council

**FI2503-13** **Policy Committee Update**

Policy update on draft national guidance for grant applications.

The Clerk had previously provided an update on grant policy to Full Council on 11th February 2025 when she had stated that advice had been sought from HR and that advice on supporting national charities already existed. Grants from national charities can be recommended at the council's discretion, but a benefit should be shown to the residents of the area in question.

**Meeting ended** 7.48pm

**Next Meeting** 14h April 2025

# Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 am 6.30pm

# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Rob Marshall (Cadeirydd), Pam Erasmus (Is-gadeirydd) Ian Scott, Martin O'Neill, Phil Keeton, Sara Keeton, Tim Zhou a Carrie Townsend Jones

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Clerc, Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Cyfranogiad y cyhoedd:** Roedd Adam Cousins o Ambiwlans Sant Ioan yn bresennol, yn bennaf i roi cyflwyniad mewn perthynas ag eitem agenda **FI2503-08**

**FI2503-01** **Ymddiheuriadau:** Dim

**FI2503-02** **Datganiadau o fuddiant:** Gwnaeth y Cynghorydd Pam Erasmus ddatganiad o fuddiant personol yn eitem agenda **FI2503-10** gan ei bod yn ffrind i'r ymgeisydd.

**FI2503-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2025 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2025 fel cofnod cywir.

**FI2503-04** **Camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol**

Amlinellwyd camau gweithredu heb eu cwblhau gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

Mumbles Community Council

FI2503-08

**Diweddariad ar Gais Grant Adran Gŵyr Ambiwlans Sant Ioan** Cais grant am £4,999.16 i gyfrannu at brynu offer hanfodol i wirfoddolwyr ac mae'n cynnwys gwariant ar gyfer hyfforddiant

Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i fynychu cyfarfod pwyllgor a rhoi cyflwyniad ar y cais a mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau gan gynghorwyr.

Cyflwynodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, yr eitem agenda hon er mwyn caniatáu i'r cyflwyniad gael ei wneud. Am 6.32pm ataliwyd y Rheolau Sefydlog dros dro a rhoddodd Adam Cousins gyflwyniad ar y cais yn manylu ar sut yr oedd wedi bod gydag Adran Gŵyr Ambiwlans Sant Ioan am naw mlynedd, gan amlinellu gwaith ei sefydliad yn yr ardal a sut y byddai'r arian grant, pe bai'n cael ei ddyfarnu, yn cael ei wario. Y tri phrif faes ar gyfer cyllid yw offer a hyfforddiant, mynd allan i'r gymuned a darparu offer gweithredol. Dywedodd Mr Cousins ei bod hefyd yn angenrheidiol paratoi ar gyfer digwyddiadau mawr a moderneiddio eu hoffer a'u harferion.

Yn dilyn ei gyflwyniad, atebodd Mr Cousins gwestiynau gan y cynghorwyr. Dywedodd fod ei adran yn gyfrifol am Gŵyr gyfan a bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cwmpasu tua 18 i 25% o'r ardal honno. Gwneir pob ymdrech i godi arian ac mae hyn wedi cynnwys cysylltu â chynghorau cymuned eraill gan gynnwys Dyfnant, Llandeilo Ferwallt a Reynoldston er nad oes unrhyw arian grant wedi'i ddarparu hyd yn hyn.

Dywedodd Mr Cousins fod llawer o'r digwyddiadau lle mae Ambiwlans Sant Ioan yn cymryd rhan, fel ffeiriau ysgol, yn cael eu darparu am ddim er bod taliadau mewn digwyddiadau mwy fel Gŵyl y Mwmbwls. Trafodwyd hefyd opsiynau i leihau ffioedd ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant a drefnir drwy Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mae llawer o'r offer yn para am amser hir trwy waith cynnal a chadw ac uwchraddio rheolaidd. Cyfeiriodd Mr Cousins at fodel y mae'n ei ddefnyddio sy'n naw oed ac sydd wedi'i uwchraddio i gynnwys technoleg ddigidol.

Dywedodd Mr Cousins fod yr offer a nodwyd yn y cais gwreiddiol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu anghenion pwysicaf y sefydliad gan gynnwys dau ddiffibriliwr a byddai'n hapus i ddarparu'r fersiwn ddiwygiedig hon.

Diolchodd y cadeirydd i Mr Cousins am ei bresenoldeb a'r gwaith a wneir gan Ambiwlans Sant Ioan. Yna gadawodd Mr Cousins y cyfarfod am 7.03pm pan ailddechreuodd y Rheolau Sefydlog.
Yn dilyn ymadawiad Mr Cousin, cynhaliwyd trafodaeth ar rinweddau'r cais. Y farn gyffredinol ymhlith y pwyllgor oedd y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls wneud rhywfaint o gyfraniad at y sefydliad gwerthfawr hwn ac y dylid dod o hyd i weddill y cyllid o ffynonellau eraill.

**ARGYMHELLWYD** grant o £2,500 i Adran Gŵyr Ambiwlans Sant Ioan er mwyn cyfrannu at brynu cyfarpar hanfodol i wirfoddolwyr, gan gynnwys gwariant ar gyfer hyfforddiant.
O **Gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

**FI2403-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi

Adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, a oedd wedi dosbarthu adroddiadau i gynghorwyr yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau hyn cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025.

**FI2503-12** **Adroddiad ar grantiau** Diweddariad y clerc ar grantiau

Cyflwynodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, yr eitem agenda hon er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad i'r ceisiadau am grantiau a nodir isod.

Roedd y clerc wedi darparu canllawiau ysgrifenedig yn flaenorol a oedd wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Roedd agweddau allweddol yr adroddiad yn cynnwys oedi i geisiadau, gweddill y gyllideb sydd ar gael a meini prawf ar gyfer prosesu ceisiadau gan gynnwys cyfyngiadau ar gronfeydd banc dros ben.

Yna atebodd y clerc gwestiynau gan y cynghorwyr.

'

Mumbles Community Council

FI2503-06 **Diweddariad ar y cais am grant gan Sunshine Lotus Yoga** Cais am grant o £5,000 i gefnogi ioga yn y gymuned trwy Yoga 4 Health

Amlinellodd y Cynghorydd Townsend Jones fod cronfeydd banc yr ymgeisydd yn brin ac y gellid ystyried cyllid rhannol.
Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, roedd yr holl gynghorwyr yn gefnogol i'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr ymgeisydd. Y consensws cyffredinol oedd y dylid dyfarnu cyllid rhannol a bod yr ymgeisydd yn ceisio'r gweddill gan gyrff eraill, gan gynnwys arian y loteri. Pe bai'r grant hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n creu cyfleoedd i'r ymgeisydd geisio cyllid ychwanegol trwy 'arian cyfatebol' gan y Loteri Genedlaethol er enghraifft.

**ARGYMHELLWYD** rhoi grant gwerth £2,500 i Sunshine Lotus Yoga er mwyn cefnogi ioga yn y gymuned drwy Yoga 4 Health
O **Gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

FI2503-07 **Diweddariad ar y cais am grant gan Glwb Bowls y Mwmbwls** Cais am grant am £800 i gyfrannu tuag at gynnal a chadw'r arwyneb chwarae ar lawnt fowlio'r Mwmbwls.

Nododd y clerc fod y cais hwn wedi'i wneud yn hanesyddol drwy un ymgeisydd ond ar gais cynghorwyr mewn cyfarfodydd blaenorol roedd yn ofynnol i'r tri chlwb sy'n gysylltiedig â'r lawnt fowlio gyflwyno ceisiadau ar wahân bellach. Nodwyd hefyd gan y clerc, a oedd wedi cysylltu â thrysorydd y clwb, fod y meini prawf ynghylch ceisiadau wedi newid ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y dyfodol i gadw arian dros ben.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nodwyd hefyd gan y cynghorwyr fod cais Clwb Croquet y Mwmbwls wedi cael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn yng nghyfarfod mis Mawrth pan oedd cynrychiolwyr o'r tri chlwb sy'n gysylltiedig â'r lawnt fowlio wedi mynychu a chymryd rhan yn y trafodion.

**ARGYMHELLWYD** rhoi grant gwerth £800 i Glwb Bowlio'r Mwmbwls er mwyn cyfrannu at waith cynnal a chadw'r arwyneb chwarae ar lawnt fowlio'r Mwmbwls.
O **Gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

FI2503-09 **Cais am Grant Clwb Rygbi'r Mwmbwls** Cais am Grant o £2,000 i gyfrannu at gefnogi Gŵyl Rygbi'r Mwmbwls, Penwythnos Crackers.

**PENDERFYNWYD:** Gohirio tan gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth ym mis Ebrill er mwyn dosbarthu'r cais am grant i aelodau'r pwyllgor.

**FI2503-10** **Cais am Grant Clwb Pêl-droed Newton Athletic** Cais am Grant gwerth £1,500 i gyfrannu tuag at ddigwyddiad Gŵyl Pêl-droed Newton Athletic (Plant)

**PENDERFYNWYD:** Gohirio tan gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth ym mis Ebrill er mwyn dosbarthu'r cais am grant i aelodau'r pwyllgor.

**FI2503-11** **Cais Grant Risg Cardiaidd yn yr Ifanc (CRY)** Cais grant am £5,000 i gyfrannu at sgrinio 100 o bobl ifanc rhwng 14 a 35 oed mewn perthynas ag adnabod materion yn ymwneud â'r galon.

Atgoffodd y Cynghorydd Pam Erasmus y cynghorwyr o gefndir y cais hwn a oedd wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd pwyllgor cynharach.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, roedd y cynghorwyr yn gefnogol i'r cais er bod barn y dylai'r sgrinio gael paramedrau ehangach er mwyn cynnwys mwy o'r boblogaeth.

Unwaith eto, consensws cyffredinol y pwyllgor oedd y dylid dyfarnu cyllid rhannol, gan roi cyfleoedd i'r ymgeisydd geisio cyllid ychwanegol, gan gynnwys 'arian cyfatebol' gan y Loteri Genedlaethol.

Cynigiodd y Cynghorydd Marshall ddarparu £200 o'i lwfans cynghorydd tuag at y rhaglen sgrinio ac roedd y Cynghorydd Erasmus wedi ymrwymo £1,500 o'i lwfans ei hun i'r rhaglen sgrinio yn flaenorol. Bydd cyfle i gynghorwyr gyfrannu o'u lwfansau eu hunain tuag at y rhaglen sgrinio yng nghyfarfod llawn y cyngor ym mis Ebrill.

**ARGYMHELLWYD** rhoi grant gwerth £2,500 i Risg Cardiaidd er mwyn cyfrannu at sgrinio 100 o bobl ifanc rhwng 14 a 35 oed mewn perthynas â chanfod problemau'r galon
O **Gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

Mumbles Community Council

**FI2503-13** **Diweddariad gan y Pwyllgor Polisi** Diweddariad y Pwyllgor Polisi ar ganllawiau cenedlaethol drafft ar gyfer ceisiadau grant.

Roedd y clerc wedi rhoi diweddariad ar bolisi grantiau i'r cyngor llawn ar 11 Chwefror 2025 yn flaenorol pan ddywedodd fod cyngor wedi'i geisio gan adnoddau dynol a bod cyngor ar gefnogi elusennau cenedlaethol eisoes yn bodoli. Gellir argymell grantiau gan elusennau cenedlaethol yn ôl disgresiwn y cyngor, ond dylid dangos budd i drigolion yr ardal dan sylw.

**Daeth y cyfarfod i ben** am 7.48pm

**Dyddiad y cyfarfod nesaf** 14 Ebrill 2025